

BCR 06

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee

Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC

Inquiry into the BBC Charter Review

Ymateb gan: Comisiynydd y Cymraeg

Response from: Welsh Language Commissioner



Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA

29/10/2015

Annwyl Syr/Madam

Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC

Dyma grynodedb o sylwadau Comisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor i Adolygiad o Siarter y BBC.

- Rhan annatod o ddiwylliant y Deyrnas Gyfunol yw'r iaith Gymraeg ac mae'n hanfodol i'r iaith bod ei phresenoldeb ar wahanol lwyfannau darlledu cyhoeddus ym Mhrydain yn parhau a chynyddu.
- Mae'r ystod eang o gynnwys cyfrwng Cymraeg safonol a ddarperir gan y BBC ac S4C yn hanfodol ar gyfer dyfodol a ffyniant yr iaith Gymraeg.
- Mae gwasanaeth darlledu cyfrwng Cymraeg y BBC ac S4C yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at economi Cymru a'r DU.
- Gallasai arbedion effeithlonrwydd ychwanegol gael effaith ar y cyfraniad a wneir gan Ymddiriedolaeth y BBC at gynnwys cyfrwng Cymraeg radio ac ar-lein yn ogystal ag allbwn teledu'r BBC ar gyfer S4C.
- O ystyried maint anghymesur y toriadau y gosodwyd ar S4C hyd yn hyn, yn ogystal â maint yr arbedion effeithiolrwydd y gwiredwyd gan y sianel, cwestiynir pa mor deg a phriodol yw iddi ysgwyddo toriadau pellach.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Gyda'r cyfran uchel iawn o gyllideb S4C a warir ar ei allbwn, credwn y gallasai unrhyw doriadau neu arbedion effeithiolrwydd pellach i S4C beryglu dyfodol y sianel a'i gallu i barhau i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy gynhyrchu a darparu cynnwys safonol a chystadleuol.
- Fel yr unig ddarledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg ym Mhrydain a'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd mae'n allweddol bod S4C y parhau i wasanaethu'r gynulleidfa Cymraeg ei hiaith gyda sicrwydd ariannol ac adnoddau digonol i gyflawni ei phwrpas.
- Nodir hefyd bod dyletswydd statudol ar Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DG i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C.
- Mae'n hanfodol nad yw unrhyw arbedion effeithlonrwydd ychwanegol yn peryglu gallu S4C a'r BBC i arloesi a moderneiddio eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n hwyluso mynediad y gynulleidfa at gynnwys cyfrwng Cymraeg.
- Croesawir adolygiad annibynnol o drefniadau lywodraethu a rheoleiddio'r BBC gan Sir David Clementi. Gobeithiwn bydd yr adolygiad hwn yn rhoi sylw teilwng i agweddau o lywodraethant y BBC sy'n berthnasol i ddarledu cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth, cydraddoldeb a thegwch i gynulleidfaedd Cymraeg eu hiaith.

Cyflwyniad

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi sylw ar yr ymchwiliad. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r dyletswyddau statudol i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod safonau.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd sef

- na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Yn unol â hynny, cynigir isod sylwadau mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad

Pwysigrwydd darlledu cyfrwng Cymraeg

Mae darlledu yn chwarae rhan hollbwysig wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ar draws y byd ac yn Nghymru yn benodol. Yn y cyd destun Ewropeaidd, cydnabyddir bwysigrwydd darlledu wrth gynnal a hyrwyddo defnydd o ieithoedd lleiafrifol o fewn Erthygl 11 y Siarter Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol¹. Adlewyrchir hynny hefyd yn 'argymhellion Oslo ar hawliau ieithyddol lleiafrifoedd cenedlaethol²' sy'n cynnig 4 argymhelliad penodol yng nghyswllt y cyfryngau a darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol. Mae'r argymhellion hynny yn amlygu pwysigrwydd sicrhau mynediad ar gyfer siaradwyr ieithoedd lleiafrifol at wasanaethau darlledu sy'n cwrdd â'u hanghenion ieithyddol a pha mor allweddol yw hynny i hyfywedd ieithoedd lleiafrifol.

Ar y lefel Brydeinig, un o bwrpasau gwasanaeth darlledu cyhoeddus yw ateb gofynion a bodloni diddordebau cynulleidfaoedd³. Yn ôl canllawiau Ofcom, disgwylir y bydd darlledwyr cyhoeddus yn cyflawni'r pwrpas o adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU:

'...To reflect and strengthen our cultural identity through original programming at UK, national and regional level'⁴

Yn unol â hynny, gellir cymryd mai un o bwrpasau gwasanaeth darlledu cyhoeddus yng Nghymru yw ateb gofynion a bodloni diddordebau y cyfran sylweddol o'r gynulleidfa sy'n siarad Cymraeg.

Rhan annatod o ddiwylliant y Deyrnas Gyfunol yw'r iaith Gymraeg ac mae'n hanfodol i'r iaith bod ei phresenoldeb ar wahanol lwyfannau darlledu cyhoeddus ym Mhrydain yn parhau a chynyddu.

Pwysigrwydd gwasanaeth darlledu cyfrwng Cymraeg S4C a'r BBC

Mae'r BBC a S4C yn darparu ystod eang o gynnwys cyfrwng Cymraeg ar deledu, radio ac ar lein.

S4C yw'r unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg ym Mhrydain a'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd. Gwyliwyd S4C gan 8.4 mln o bobl drwy'r Deyrnas

¹ <http://conventions.coe.int/Treaty/en/Treaties/Html/148.htm>

² <http://www.unesco.org/most/ln2pol7.htm>

³ Adran 264(4)(c) Deddf Cyfathrebiadau 2003

⁴ http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/reviews-investigations/psb-review/psb2015/PSB_Annual_Report_summary.pdf



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gyfunol yn 2014/2015 (yn gynydd o 1.9 miliwn o gymharu â 2013/2014). Yn ôl arolwg tracio delwedd S4C, mae gwylwyr o'r farn bod y sianel yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru. Mae 97% o'r gwylwyr sy'n siarad Gymraeg yn meddwl bod S4C yn sianel bwysig i'r iaith Gymraeg ac y dylai barhau. Mae 81% yn teimlo ymhellach bod y sianel yn gwneud i'r Gymraeg ymddangos yn fwy modern a pherthnasol.

Ar sail Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC mae BBC Cymru yn cynhyrchu tua deg awr yr wythnos o raglenni teledu ar gyfer S4C, gan gynnwys *Newyddion 9*, drama *Pobol y Cwm* a rhaglenni chwaraeon fel *Clwb Rygbi (Pro12)*. Gwylir yr holl raglenni hyn gan tua 131,000 pob wythnos,

Mae dylanwad y BBC ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn ymestyn y tu hwnt i'r cynnwys sydd ar gael ar deledu. Yn ôl y ffigyrau diweddaraf mae 119,000 o bobl wedi gwrando ar Radio Cymru bob wythnos yn 2014/2015.

Lansiwyd BBC Cymru Fyw ym mis Mai 2014, sef gwasanaeth ar lein Cymraeg newydd ac ap Cymraeg cyntaf y BBC. Ers y flwyddyn ddiwethaf mae S4C hefyd ar gael fel sianel gyflawn ar BBC iPlayer. Ar draws yr holl gynnwys ar lein defnyddiwyd y gwasanaeth yn 2014/2015 gan 89,000 porwr unigol yn wythnosol.

Adlewyrchir rôl allweddol S4C a BBC Cymru mewn cynllunio ieithyddol yng Nghymru yn Strategaeth y Gymraeg 2012–17 Llywodraeth Cymru 'Iaith fyw: iaith byw:'

"Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys BBC Cymru Wales, S4C ac ITV Wales, yn ddiweddar fel cynhyrchydd rhaglenni, wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu.... Mae amrywiaeth a safon rhaglenni Cymraeg ar S4C a BBC Radio Cymru yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fodern ac yn rhan o fywyd bob dydd yng Nghymru."⁵

Mae'r ystod eang o gynnwys cyfrwng Cymraeg safonol a ddarperir gan y BBC ac S4C yn hanfodol ar gyfer dyfodol a ffyniant yr iaith Gymraeg.

Mae'r BBC ac S4C yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Prydain ac economi Cymru'n benodol.

Amcangyfrifir bod buddsoddiad uniongyrchol y BBC mewn diwydiannau creadigol ym Mhrydain yn 2013/14 yn gyfwerth â thua £2.2 biliwn. O ran gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn 2014/15, gwariwyd £12.8mln ar gostau creu rhaglenni Radio Cymru a £24.5mln ar gostau creu yr allbwn statudol ar gyfer S4C, heb gynnwys gorbenion, costau dosbarthu ac eraill.⁶

⁵ Iaith fyw: iaith byw Strategaeth y Gymraeg 2012–17, tud 47-48

⁶ <http://downloads.bbc.co.uk/annualreport/pdf/2014-15/bbc-annualreport-201415.pdf> tud 139



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yn 2014/15 buddsoddodd S4C £83mln yn economi Cymru a'r DU ac yn ôl ymchwil diweddaraf a gomisiynwyd gan S4C, mae bob £1 o'r buddsoddiad hwnnw yn fwy na dyblu yn ei werth i'r economi. Os felly amcangyfrifir bod S4C wedi cyfrannu tua £170mln at economi Cymru a'r DU yn 2014/15 .

Mae dylanwad economaidd S4C yn cynnwys creu swyddi newydd, helpu cwmnïau annibynnol i dyfu a chefnogi cadwynau cyflenwi mewn ardaloedd ar draws Cymru. Yn ôl adroddiad blynyddol gan S4C yn 2014/15, cydweithiodd y sianel â 66 cwmni cynhyrchu annibynnol i ddarparu'r cynnwys a ddarledwyd ganddi.

Mae gwasanaeth darlledu cyfrwng Cymraeg y BBC a S4C yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at economi Cymru a'r DU.

Dyfodol darpariaeth cyfrwng Cymraeg S4C a'r BBC

Y BBC

Yn ogystal â chyllido cynnwys cyfrwng Cymraeg y BBC ar radio ac ar lein, mae'r BBC yn cyfrannu yn ogystal tua deg awr yr wythnos o raglenni teledu ar gyfer S4C; gwariwyd gan y BBC £19.4 mln ar gostau cynhyrchu yr allbwn hwn yn 2013/2014. Ceir hefyd cydweithrediad agos rhwng y ddau sefydliad i gyd-gynhyrchu ail gyfres y drama *Y Gwyll* a chydleoli agweddau o waith technegol a gweinyddol S4C ar safle newydd y BBC yng nghanol Caerdydd.

Yn ôl adroddiad blynyddol y BBC gwiredodd yr Ymddiriedolaeth arbedion effeithlonrwydd sy'n gyfwerth â £484 mln yn 2014/2015, a disgwylir iddi gyrraedd y targed o £700 mln fesul blwyddyn erbyn 2016/2017⁷.

Gallasai arbedion effeithlonrwydd ychwanegol gael effaith ar y cyfraniad a wneir gan Ymddiriedolaeth y BBC at gynnwys cyfrwng Cymraeg radio ac ar-lein yn ogystal ag allbwn teledu'r BBC ar gyfer S4C.

S4C

Ym mis Hydref 2010, yn dilyn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DG, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at S4C yn cadarnhau toriad o 24.4% i gyllid S4C dros y 4 blynedd o'r cyfnod adolygu gwariant⁸. Ers hynny, mae S4C wedi gweld toriad parhaus yn ei hincwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus:

- 2010: £101.647mln
- 2011: £90.000mln
- 2012: £83.000mln
- 2013/2014: £100.609mln (dros 15 mis)
- 2015: £82.787mln (rhwng y cyfraniad o Ffi'r Drwydded ac incwm oddi wrth DCMS)

⁷ <http://downloads.bbc.co.uk/annualreport/pdf/2014-15/bbc-annualreport-201415.pdf>

⁸ <http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2010.pdf>



Ers mis Ebrill 2013 mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am ddarparu tua 90% o gyllideb S4C o Ffi'r Drwydded. Mae cyfanswm y cyfraniad hwnnw wedi gostwng pob blwyddyn, a rhagwelir gostyngiad pellach erbyn 2017:

- 2014-15 £76mln
- 2015-16 £75.25mln
- 2016-17 £74.5mln

Yn ôl adroddiad blynyddol S4C, ers 2011 gwireddodd y sianel yn barod arbedion effeithlonrwydd sy'n gyfwerth â £12.5mln⁹. Amcangyfrifwyd gan S4C y cafodd cyllideb y sianel doriad sy'n gyfwerth o 36% mewn termau real dros y bedair mlynedd ddiwethaf. O gymharu, amcangyfrifir bod y toriad cyfatebol ar gyfer y BBC yn gyfwerth â rhwng 20%¹⁰ a 26%.¹¹

Er gwaethaf y toriadau hyn, datganodd Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DG mis Gorffennaf 2015: 'S4C will be expected to find similar savings to those in the BBC.'¹²

Datganwyd pellach mewn nodyn briffio diweddar gan Lyfrgell Tŷ'r Arglwyddi '...The BBC's grant to S4C may be reduced by an equivalent percentage reduction in funding to the percentage reduction made to BBC funding over the period 2018/19–2020/2. It will be up to the Government to decide how to make up the shortfall.'¹³

O ystyried maint anghymesur y toriadau y gosodwyd ar S4C hyd yn hyn, yn ogystal â maint yr arbedion effeithiolrwydd y gwireddwyd gan y sianel, cwestiynir pa mor deg a phriodol yw iddi ysgwyddo toriadau pellach.

Mae gwariant S4C at raglenni a gomisiynwyd yn gyfwerth â 80% o wariant cyfan y sianel (2014/2015). Gwarir tua 16% y cyllideb ar gostau cefnogi cynnwys, tra bod gorbenion S4C yn gyfwerth â thua 4% y gwariant.

Gyda'r cyfran uchel iawn o gyllideb S4C a warir ar ei allbwn, credwn y gallasai unrhyw doriadau neu arbedion effeithiolrwydd pellach i S4C beryglu dyfodol y sianel a'i gallu i barhau i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy gynhyrchu a darparu cynnwys safonol a chystadleuol.

Nodir yn y Papur Gwyrdd 'Ymgynghoriad Cyhoeddus Adolygu Siarter y BBC' gan DCMS bod cyllideb S4C wedi ei warchod yn nghyfnod y Siarter ddiwethaf. Serch hynny, fel yr amlinellwyd uchod, bu gostyngiad sylweddol iawn yng nghyllideb y sianel ers

⁹ <http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2015.pdf> tud 54 - 55

¹⁰ <http://www.parliament.uk/documents/lords-committees/communications/BBCgovernance/BBCGRallev.pdf> : 2011

¹¹ <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmselect/cmcomeds/315/31509.htm#n317> :2015

¹² <http://www.theyworkforyou.com/debates/?id=2015-07-16b.1120.0>

¹³ Nodyn Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi: 'BBC: Future Financing and Independence' LLN 2015/026, 3 Medi 2015



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

2010, ac mae'r bygythiad o doriadau pellach yn peryglu ei gallu i ddarparu cynnwys safonol a gwasanaethu cynulleidfa Gymraeg ei hiaith.

Yn ogystal, mae'r sianel bellach yn wynebu ansicrwydd ariannol parhaus, gan fod ei chyllideb yn yr hirdymor yn ddarostyngedig i benderfyniadau Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DG mis Tachwedd eleni, a chanlyniadau'r broses o adolygu'r Siarter y BBC flwyddyn nesaf. Byddai ansicrwydd ariannol o'r fath yn heriol i unrhyw sefydliad, ond mae'n eithriadol o anodd i S4C o ystyried y toriadau anghymesur a wnaethpwyd eisoes i gyllideb y sianel.

Fel yr unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg ym Mhrydain a'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd mae'n allweddol bod S4C y parhau i wasanaethu'r gynulleidfa Cymraeg ei hiaith gyda sicrwydd ariannol ac adnoddau digonol i gyflawni ei phwrpas.

Nodir hefyd bod dyletswydd statudol ar Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DG i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C.

Moderneiddio

Gwelwyd yn ddiweddar newidiadau deinameg i batrymau gwyllo a gofynion y gynulleidfa sy'n trawsnewid y tirlun darlledu yn y Deyrnas Gyfunol. Mae hi'n her cynyddol i ddarlledwyr i ddarparu cynnwys safonol a chystadleuol i gynulleidfaeodd amrywiol ac ar draws blatfformau amrywiol.

Croesawir felly y twf aruthrol mewn defnydd o gynnwys cyfrwng Cymraeg ar lein. Nodwyd uchod bod lansiad S4C ar BBC iPlayer wedi cyfrannu at dwf trawiadol yn nifer y porwyr unigol wythnosol cynnwys cyfrwng Cymraeg. Yn y cyfnod rhwng Mawrth 2014 a Mawrth 2015 cynyddodd nifer o sesiynau gwyllo S4C ar yr iPlayer o 11,000 i 474,000; mewn cyfuniad â gwasanaeth S4C Arlein/Clic mae'r ffigur hwn yn cyfrannu at gynydd o 175% i sesiynau gwyllo cynnwys S4C ar lein yn ystod y cyfnod hwn¹⁴. Croesawir hefyd lansiad trosglwyddyddion digidol newydd yng Nghymru yn 2014, yn ogystal ag ymrwymiad y BBC i ehangu cyrhaeddiad DAB radio ar gyfer Radio Cymru a Radio Wales i 86% erbyn canol 2016.

Mae'r ddau ddatblygiad uchod yn enghraifft o weithrediad cadarnhaol a phwrpasol er mwyn ehangu cyrhaeddiad cynnwys cyfrwng Cymraeg a denu defnyddwyr newydd Cymraeg eu hiaith. Er bod y newidiadau i'r tirlun darlledu'n heriol ni ddylai ddarlledwyr cyhoeddus ymateb trwy gyfangu'r gwasanaeth – yn hytrach, mae angen ar arloesi er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaeodd Cymraeg cyfoes.

¹⁴ S4C: Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar gyfer y cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2015



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mae'n hanfodol nad yw unrhyw arbedion effeithlonrwydd ychwanegol yn peryglu gallu S4C a'r BBC i arloesi a moderneiddio eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n hwyluso mynediad y gynulleidfa at gynnwys cyfrwng Cymraeg.

Trefniadau cyllido, llywodraethu ac atebolrwydd y BBC ar hyn o bryd ac yn y dyfodol mewn perthynas â Chymru

Croesawir adolygiad annibynnol o drefniadau lywodraethu a rheoleiddio'r BBC gan Sir David Clementi. Gobeithiwn bydd yr adolygiad hwn yn rhoi sylw teilwng i agweddau o lywodraethant y BBC sy'n berthnasol i ddarlledu cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth, cydraddoldeb a thegwch i gynulleidfaedd Cymraeg eu hiaith.

Casgliad

O ystyried fy sylwadau uchod, gofynnaf i chi roi sylw dyledus a phenodol fel rhan o'r ymchwiliad hwn i bwysigrwydd darlledu cyfrwng Cymraeg a oblygiadau unrhyw doriadau ychwanegol i S4C, darpariaeth cyfrwng Cymraeg y BBC, a gwasanaeth gwerthfawr y darperir gan y ddau i gynulleidfaedd Cymraeg eu hiaith.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg